**Datganiad Polisi Cyhoeddus - Crynodeb**

**Gofal Cymdeithasol**

**Medi 2023**

## Crynodeb

- Mae'r datganiad polisi hwn yn ymdrin â:
- Urddas a hyfforddiant (gan gynnwys maeth a hydradu)
- Rheoleiddio ac arolygu gofal cymdeithasol
- Ansawdd a chomisiynu
- Asesu, cymhwysedd ac angen heb ei ddiwallu
- Gwasanaethau ataliol
- Cyd-gynhyrchu a gweithio aml-asiantaethol
- Allgáu digidol
- Darpariaeth Gymraeg

Mae gofal cymdeithasol yn derm sy'n cwmpasu ystod eang o wasanaethau y gellir eu darparu gartref, yn y gymuned neu nifer o leoedd eraill. Defnyddir y term i ddisgrifio unrhyw wasanaeth sy'n helpu pobl sydd ag anghenion cymorth i fyw'n dda[1] ac aros yn annibynnol cyn hired â phosibl. Roedd poblogaeth sy'n heneiddio a nifer cynyddol o bobl ag anghenion iechyd a gofal hirdymor cymhleth eisoes yn rhoi'r system gofal cymdeithasol dan bwysau cyn pandemig Covid 19. Mae gan wasanaethau cymdeithasol, fel gwasanaethau statudol, lefel o amddiffyniad cyfreithiol nad yw'n cael ei fwynhau gan yr holl wasanaethau awdurdod lleol, ond nid yw amddiffyniad cyfreithiol yn ymestyn i gynnwys y lefel o adnoddau sydd eu hangen i ddarparu gofal cymdeithasol i bawb sydd ei angen.

Mae cadw'n iach, teimlo'n dda ac aros mor annibynnol yn hanfodol bwysig i bawb yng Nghymru. Felly, mae angen i ofal cymdeithasol fod yn hyblyg, canolbwyntio ar y person a chanolbwyntio ar ganlyniadau i alluogi pobl hŷn i gynnal eu hannibyniaeth cyn hired â phosibl ac i wneud y pethau sy’n bwysig iddyn nhw. Dylai gofal cymdeithasol fod yn briodol, yn amserol ac yn hawdd i’w ddefnyddio, gyda mwy o

[1] Mae'r Sefydliad Rhagoriaeth Gofal Cymdeithasol (SCIE) yn Lloegr yn diffinio gofal cymdeithasol fel "pob ymyriad a ddarperir neu a ariennir gan asiantaethau statudol a / neu annibynnol, sy'n cefnogi pobl hŷn, oedolion iau a phlant yn eu bywydau bob dydd ac yn darparu gwasanaethau nad ydynt yn gallu eu darparu iddynt eu hunain, neu nad yw'n bosibl i aelodau o'r teulu eu darparu heb gymorth ychwanegol." SCIE (2005): *Datblygu gofal cymdeithasol: gwerthoedd ac egwyddorion*, t1

gysondeb o ran y gwasanaethau a ddarperir a'r meini prawf y mae'n rhaid eu bodloni.

Mae gofal cymdeithasol aneffeithiol ac o ansawdd gwael yn cynyddu pwysau ar GIG Cymru o ran derbyniadau a rhyddhau pobl o'r ysbyty. Mae pobl hŷn mewn perygl o orfod cael eu derbyn i'r ysbyty ar frys, yn enwedig gan fod mwy o bobl bellach yn byw'n hirach gyda chyflyrau hirdymor a chronig. Mae pobl hŷn sy'n ddigon iach i gael eu rhyddhau yn aros yn yr ysbyty oherwydd nad oes ganddynt y cymorth gofal cymdeithasol priodol a fyddai'n caniatáu iddynt ddychwelyd adref. Fel arall, mae rhai pobl hŷn yn cael eu rhyddhau pan nad yw'n addas heb wiriadau i sicrhau y byddant yn ddiogel ac yn medru gofalu am eu hun wrth wella.

Mae pobl hŷn 65 oed a hŷn yn cyfrif am 21.3% o boblogaeth Cymru a dyma'r gyfran uchaf o holl wledydd y DU.[2] Mae'r angen am ofal cymdeithasol yn cynyddu gydag oedran ac mae cyfran y boblogaeth sy'n 65 oed a throsodd yng Nghymru wedi bod yn tyfu'n gyflymach na chyfran y boblogaeth rhwng 18 a 64 oed ac mae hyn yn duedd a fydd yn parhau yn y degawdau nesaf. Amcanestynnir y bydd nifer y bobl 65 oed a hŷn yn cynyddu 16.1% i 776,300 erbyn 2030. Amcanestynnir y bydd nifer y bobl 75 oed neu'n hŷn yn cynyddu 23.9% i 380,200 erbyn 2030.[3]

Nid oes fformiwla glir yn cael ei ddefnyddio ar gyfer dosbarthu adnoddau gofal cymdeithasol. Mi wnaeth adroddiad ar Fodelau Cyllido Arloesol i Ddiwallu Anghenion Gofal Cymdeithasol 2020 (2019)[4] nodi er bod y 5 mlynedd flaenorol wedi bod yn gyson o ran gwariant ar wasanaethau oedolion, yn ystod yr un cyfnod gwelwyd gwariant o 13% y pen ar bobl hŷn. Mae Age Cymru yn credu y dylai fod model cyllido teg sy'n ystyried lefelau angen pobl hŷn.

Mae'r pandemig wedi tynnu sylw at faterion sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol a oedd eisoes yn bodoli cyn y pandemig. Mae ein dau adroddiad ar oedi mewn mynediad at ofal cymdeithasol yn dangos, er gwaethaf ymdrechion adrannau gofal cymdeithasol ledled Cymru i addasu i ddiwallu anghenion poblogaeth sy'n heneiddio, bod eu hymdrechion wedi cael eu rhwystro'n ddifrifol gan effeithiau'r pandemig, a phoblogaeth Gymreig fwy bregus nad yw wedi cael mynediad at yr ystod o wasanaethau a chyfleoedd cymdeithasol sy'n helpu gydag iechyd a lles, yn ogystal â'r argyfwng costau byw.[5]

[2] Amcangyfrifon Poblogaeth ac Aelwydydd, Cymru: Mae Cyfrifiad 2021 ar gael yma: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/bulletins/populationandhouseholdestimateswales/census2021

[3] Amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol (data dros dro): 2020 yn seiliedig ar 2020, ar gael yma https://www.gov.wales/national-population-projections-interim-data-2020-based

[4] https://www.adss.cymru/cy/blog/post/innovative-funding-models-to-meet-social-care-needs

[5] Yn 2022 fe wnaethom gyhoeddi ein adroddiad Pam ydyn ni'n aros? a oedd yn edrych ar oedi wrth i bobl geisio cael mynediad at ofal cymdeithasol. ac yn 2023 fe wnaethom gyhoeddi diweddariad https://www.agecymru.cymru/cymryd-rhan/ymgyrchoedd/pam-ydyn-nin-aros--oedi-mewn-gofal-cymdeithasol-yng-nghymru/

Mae'r pwysau ar y system gofal cymdeithasol bresennol yn golygu bod pobl hŷn yn teimlo bod pethau'n cael ei wneud iddyn nhw, yn hytrach na bod sefydliadau'n gweithio gyda nhw. Mae angen ailosod i sicrhau bod llais pobl hŷn yn ganolog i'r holl benderfyniadau a datblygiadau sy'n effeithio ar eu hiechyd a'u lles, gan gynnwys y gofal cymdeithasol y maent yn ei dderbyn.

Mae diffyg adnoddau gofal cymdeithasol yn erydu hawliau cyfreithiol pobl hŷn wrth iddyn nhw wneud penderfyniadau am eu gofal cymdeithasol, ac mewn rhai achosion yn erydu eu hawl i urddas mewn gofal.

**Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**

Roedd Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ('Y Ddeddf') yn 2014 i gydnabod y galw cynyddol am ofal cymdeithasol ar y pryd.

Mae Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn[6] yn cynnwys hawliau ar ofal sy'n cynnwys hawliau i ofal iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a chyfreithiol, urddas a pharch. Mae'r rhain wedi'u cynnwys ym mwriadau'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles.

Sefydlodd hyn y fframwaith cyfreithiol i ddarparu gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy a daeth i rym ar 6 Ebrill 2016. Datblygwyd deddfwriaeth newydd ar reoleiddio ac arolygu gofal cymdeithasol hefyd. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno deddfwriaeth gofal cymdeithasol cwbl ar wahân i Gymru, gyda Lloegr yn cael Deddf Gofal 2014.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys ystod o ddyletswyddau i ddarparu gwasanaethau ataliol, gofyniad cyfreithiol i asesu anghenion gofal i'r rhai sydd angen gwasanaethau gofal cymdeithasol a'u gofalwyr di-dâl a mwy o ddyletswyddau ar ddiogelu. Cyflwynodd ofyniad cyfreithiol i awdurdodau lleol gomisiynu cefnogaeth eiriolaeth am y tro cyntaf. O dan y Ddeddf, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ddatblygu a diweddaru asesiadau anghenion poblogaeth (PNAs) gyda'u partneriaid Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Bwriadir i PNAs gael eu defnyddio i ddatblygu gwasanaethau sy'n ymateb i anghenion eu poblogaethau rhanbarthol a lleol. Roedd y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol (RPBs) weithio gyda'i gilydd i wella gwybodaeth ac ansawdd wrth gomisiynu gwasanaethau gofal. Mae aelodaeth y Byrddau'n cynnwys Aelod Etholedig o bob awdurdod lleol yn y rhanbarth; Iechyd; Gofal Cymdeithasol; Tai; landlordiaid cymdeithasol cofrestredig; Addysg; cynrychiolydd trydydd sector; aelod o'r cyhoedd a gofalwr.

Bwriad y Ddeddf oedd darparu'r fframwaith i symud tuag at ddull ataliol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o ddarparu gofal yng Nghymru. Fodd bynnag, nid yw'r gwelliannau a ddisgwylir drwy'r Ddeddf wedi'u gwireddu'n llawn eto. Mae

[6] https://www.ohchr.org/en/instruments-mechanisms/instruments/united-nations-principles-older-persons

adroddiadau Age Cymru, Pam ydyn ni'n aros? (2022) a Pam ydyn ni'n dal i aros? (2023) yn tynnu sylw at sut mae'r methiannau hyn yn effeithio ar bobl hŷn. Yn 2022 gwelsom fod nifer o bobl hŷn ledled Cymru'n wynebu oedi hir wrth gael asesiad ar gyfer eu hanghenion gofal, ac oedi pellach wrth gael gofal. Mewn trafodaethau gydag arweinwyr gofal cymdeithasol ledled Cymru, clywsom am ymdrechion i fynd i'r afael â rhestrau aros a diwallu mwy o anghenion pobl hŷn gan ddefnyddio ffyrdd mwy newydd o weithio. Canfu ymchwil 2023, er gwaethaf yr ymdrechion hyn, nad yw'r mwyafrif o'r gwelliannau a ddisgwylir wedi digwydd oherwydd galw llawer uwch am ofal cymdeithasol gan boblogaeth fregus gyda lefelau uwch o anghenion gofal - a ddarperir gan weithlu sydd hefyd yn cael eu heffeithio gan beidio â gallu darparu'r ymateb cywir i'w cleientiaid. Yn benodol, roedd newidiadau a oedd yn cael eu trafod yn 2022 yn dal i fod yn aml yn cael eu datblygu flwyddyn yn ddiweddarach.

Canfu gwerthusiad o'r Ddeddf yn 2023 fod llawer o waith i'w wneud o hyd i gyflawni nodau'r Ddeddf.[7] Er bod tystiolaeth bod awdurdodau lleol ledled Cymru yn symud tuag at ffyrdd mwy newydd o weithio, nid yw'r newid mawr wei digwydd, i raddau helaeth o ganlyniad i'r pandemig. Mae'r gwerthusiad yn dangos:

- Bod llais a rheolaeth wrth wneud penderfyniadau yn parhau i fod yn gyfyngedig.[8]
- Nid yw nod y Ddeddf i wella gweithio aml-asiantaethol (sy'n hanfodol i wella canlyniadau ar gyfer anghenion y mwyafrif o bobl hŷn) wedi arwain at newid diwylliannol lle mae lleisiau pob asiantaeth yn cael eu clywed yn gyfartal.[9] Mae hyn yr un mor wir am weithio mewn partneriaeth, sy'n hanfodol i ofal o ansawdd da.[10]

Mae'n amlwg, er gwaethaf y cyllid ychwanegol sydd wedi'i ddarparu gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â materion adnoddau, mae angen buddsoddiad ychwanegol o hyd i Diegel annibyniaeth, lles ac urddas pobl hŷn.

Mae Age Cymru yn elusen gofrestredig 1128436. Cwmni cyfyngedig trwy warant ac wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr 6837284. Cyfeiriad swyddfa gofrestredig Llawr Gwaelod, Tŷ'r Mariners, Llys Trident, Ffordd Ddwyrain Moors, Caerdydd CF24 5TD. © Age Cymru 2023.

[7] Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: gwerthuso prosesau, Llywodraeth Cymru 12 Ionawr 2021 ar gael yma: https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-o-ddeddf-gwasanaethau-cymdeithasol-llesiant-cymru-2014-gwerthuso-prosesau

[8] Ymchwil Llais a Rheolaeth i gefnogi Adroddiad Terfynol y Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 https://www.llyw.cymru/llais-rheolaeth-ymchwil-i-gefnogi-adroddiad-terfynol-y-gwerthusiad-o-ddeddf-gwasanaethau-cymdeithasol-llesiant-cymru-2014

[9] Gwaith aml-asiantaethol Ymchwil i gefnogi Adroddiad Terfynol y Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 https://www.llyw.cymru/gweithion-aml-asiantaethol-ymchwil-i-gefnogi-adroddiad-terfynol-y-gwerthusiad-o-ddeddf-gwasanaethau-cymdeithasol-llesiant-cymru-2014

[10] Cyd-gynhyrchu Ymchwil i gefnogi Adroddiad Terfynol y Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 https://www.gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2023-03/co-production-research-to-support-the-final-report-of-the-evaluation-of-the-social-services-and-well-being-wales-act-2014.pdf